Afasic GeirfA

Anhwylderau semantig a phragmatig

Beth yw anhwylderau semantig a phragmatig ?

Yn aml, caiff anhwylderau'r plant hyn eu nodi yn gyntaf o ganlyniad i'w nodweddion ieithyddol anarferol. Byddant yn cael anhawster i ddeall ambell air, ymadrodd a brawddeg ac yn defnyddio eraill mewn ffordd ryfedd neu amhriodol. Byddant yn aml yn dangos arwyddion o ddatblygiad cymdeithasol a chwarae cyfyngedig.

Mae **semantig** yn cyfeirio at ystyr geiriau ac ymadroddion, ac mae **pragmatig** yn cyfeirio at wybod beth i'w ddweud, pryd a sut i'w ddweud wrth bobl eraill. Mae'r rhain yn feysydd cymhleth o ddysgu a defnyddio iaith.

Byddai'n well ystyried plant sydd â phroblemau semantig yn unig o dan y pennawd **anhwylder derbyn iaith** a **nam iaith lefel uwch**. O fewn y categori semantig-pragmatig bydd eu hanawsterau ag ystyr yn tueddu i ganolbwyntio ar benderfynu beth yw pwnc y frawddeg. Byddant yn aml yn gwybod ystyron posibl gair, ond ni allant benderfynu sut y caiff ei ddefnyddio ar yr achlysur hwn.

Bydd rhai geiriau sy'n cyfeirio at gysyniadau fel teimladau (trist, wedi drysu, cenfigennus) neu statws (pwysig, swyddogol) yn anodd i'r plant hyn eu dysgu. Byddant hefyd yn cael anhawster gyda defnydd o iaith nad yw'n llythrennol fel 'rho'r gorau iddi' ar gyfer 'paid', neu 'taro'r hoelen ar ei phen'.

Caiff plant sydd â phroblemau pragmatig anhawster i ddefnyddio iaith mewn cyd-destun cymdeithasol. Nid yw'n ymddangos eu bod yn deall sut y byddwn yn cymryd ein tro wrth siarad, byddant yn torri ar draws yn fwy aml na'r hyn sy'n dderbyniol ac ni fyddant yn gwneud llawer o ymdrech i gadw sgwrs i fynd trwy ddweud pethau bach fel 'ie' neu 'beth wnaethoch chi'? Weithiau ymddengys nad ydynt yn gwybod beth fydd eu partner angen ei wybod ac ment yn gallu dweud gormod neu dim digon am y pwnc. Bydd y person arall yn aml yn teimlo bod yr hyn sydd ganddo/ganddi i'w ddweud yn amhriodol neu'n amherthnasol.

Bydd problemau semantig y plant hyn yn cyfuno â'u hanawsterau pragmatig. Byddant yn dysgu ystyron geiriau o ba mor aml y cânt eu defnyddio gan bobl gan amlaf. Er enghraifft bydd plant yn aml yn dehongli neges yn eithaf llythrennol – e.e. 'alli di agor y drws ?' a bydd y plentyn yn ateb 'gallaf' heb symud blewyn. Bydd y plentyn hwn wedi trin y cais i agor y drws fel cwestiwn yn ymwneud â'i allu i wneud hyn. Mae hwn yn normal yn ystod cyfnod penodol o ddatblygiad, ond dylai'r plentyn ddod ohono wrth iddo ddatblygu.

Nododd Rapin y noweddion canlynol fel rhai sy'n nodweddiadol o blant sydd ag anhwylder semantig-pragmatig ym 1987:

- brawddegau rhugl, sydd wedi'u llunio'n dda
- geiriog gydag ynganiad boddhaol
- dehongliadau llythrennol yn aml ochr yn ochr
- â geirfa dda
- defnyddio sgriptiau mewn sefyllfaoedd (hy dweud yr un peth bob tro)
- dweud mwy na'r hyn sydd yn eu gallu i'w ddeall
- problemau gyda chymryd tro a chadw at y pwnc dan sylw (gwybod beth yw'r pwnc sy'n cael ei drafod)
- osgoi'r pwynt, a bod yn amwys o ran beth mae'n ei ddweud

Cyfeiriadau

Bates, E (1976), *Language and Context: the Aquisition of Pragmatics*, Academic Press

Bishop, D (1989), Autism, Asperger's syndrome and semantic-pragmatic disorder: where are the boundaries? *British Journal of Disorders of Communication* 24, t.107-121

Fletcher, P (1986), Semantic-pragmatic disorders: an approach from syntax, yn Advances in *Working with Language Disordered Children*, I CAN

Gerard, K (1986), Learning how to talk about the here and now and the there and then, yn *Advances in Working with Language Disordered Children*, I CAN

Rapin, I (1987), Developmental dysphasia and autism in pre-school children: characteristics and subtypes, yn *Proceedings of the First International Symposium on Specific Speech and Language Disorders in Children*, Afasic

Taflenni Geirfa perthnasol eraill

- Anawsterau i ddeall a derbyn iaith (22)
- Anhwylder iaith lefel uwch (13)
- Awtistiaeth (7)
- Syndrom Asperger (11)
- Anhwylder datblygiadol hydreiddiol (16)

Sefydliadau eraill a all helpu

I CAN
4 Dyer's Buildings, Holborn, London, EC1N 2QP
Ffôn: 0870 010 40 66

NAPLIC (Sefydliad Cenedlaethol y Gweithwyr Proffesiynol sy'n ymwneud â Phlant â Nam Iaith)
14 Heritage Close, Peasedown St John, Bath, BA2 8TJ

Ysgrifennwyd gan Bob Daines, seicolegydd addysgol, gyda diolch i Elizabeth Auger, athrawes iaith arbenigol.